

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 3 Chwefror 2020 am 7.30yh yn Festri Capel Penyparc.

Presennol:

Cyng. Auriol Williams (Cadeirydd)

Cyng. Lyn Jones

Cyng. Eurig Lloyd

Cyng. Dilwyn Jenkins

Cyng. Peter Williams

Cyng. Clive Davies (Aelod lleol y Cyngor Sir)

Cyng. Lloyd Jenkins (*Is-Gadeirydd*)

Cyng. Des Davies

Cyng. Llinos Price

Cyng. Delyth Phillips

Cyng. Matthew Morgan

Mrs Melanie Davies (*Clerc*)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Auriol Williams, bawb i gyfarfod mis Chwefror. Llongyfarchodd merched Ysgol Gymunedol Penparc a gynrychiolodd yr ysgol yng nghystadleuaeth ras gyfnewid yr Urdd yng Nghaerdydd lle llwyddon nhw i ddod yn ail. Cytunwyd anfon carden i'w llongyfarch. Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi'n bwriadu galw yn yr ysgol yn fuan.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Dim ymddiheuriadau.
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol**
Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd fod cofnodion mis Ionawr yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Cyng. Delyth Phillips, gweler Gohebiaeth, rhif 49.
- 5. Materion yn codi:**
 - (a) Lladdwr yr ynn:** Trafodwyd safle'r Cyngor ar y mater hwn. Nid oedd y Cyngor yn ymwybodol o unrhyw goed ar dir y Cyngor oedd wedi'u heffeithio. O ran coed ar dir eraill, cytunwyd mai perchnogion y tiroedd hynny oedd yn gyfrifol am eu cwmpo.
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**
I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o Ddeddf Ariannol 1996. Ambiwlans Awyr Cymru
- 7. Cynllunio:**

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau'r Cyngor</i>

8. Materion Ariannol

Biliau wedi eu talu:

Cyflog y Clerc (Ionawr 2020)

101828

£385.97

Costau'r Clerc (Ionawr 2020)

101829

£40.80

Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Ionawr 2019)

Hen Ysgol y Ferwig Cyf (cost hurio'r ysgol yn 2019)

101830

£120.00

Y Dwrgi (hysbysebu swydd)

101831

£5.00

Brwsh

101832

£37.69

Canolfan Ieuenctid Penyparc (yswiriant)

101833

£348.13

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Materion ariannol eraill

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Adroddiad Ariannol. Edrychodd y Cyngorwyr ar yr adroddiad ariannol a sylwyd bod costau torri'r porfa yn y cae pêl-droed angen cael eu symud i gategori arall. Sylwyd bod costau torri porfa'n gyffredinol uchel o ganlyniad i'r haf poeth.

Derbyniadau: Dim.

9. Gohebiaeth:

47	Cyngor Sir Ceredigion	Cau ffordd dros dro ger Talarwen, Penyparc	Nodwyd
48	Lyn Jenkins	Ymholiad ar weithdrefn y Cyngor ar lwybrau cerdded	Cytunwyd i edrych mewn i hyn.
49	Delyth Phillips	Cais am swydd y Clerc	Gadawodd y Cyng. Delyth Phillips y cyfarfod wrth i'w chais gael ei drafod. Cytunwyd yn unfrydol i roi'r swydd iddi. Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins
50	Ambiwlans Awyr Cymru	Cais am rodd ariannol	Nodwyd
51	Y Rheoleiddiwr Pensiynau	Dogfen yn gofyn i'r Cyngor ailymrestru	Nodwyd – rhywbeth i'r Clerc newydd edrych i mewn iddo.
52	Chwarae Cymru	Cylchlythyr	Nodwyd
53	Cyngor Sir Penfro	Cynllun Datblygu Lleol, Cynllun Adnewo – Ymgynghoriad 15 Ionawr i 11 Mawrth 2020	Nodwyd
54	Ben Lake AS	Manylion cyswllt i'r hysbysfyrddau	Nodwyd
55	Brian Mark	Llythyr yn gofyn i'r Cyngor gefnogi 'Energy Local Clubs' yn yr ardal.	Dywedodd y Cyng. Peter Williams fod Cymru'n talu 30% yn fwy ar drydan na Lloegr. Trafodwyd gwahanol gynlluniau sydd ar waith e.e. ffermydd tyrbinau gwynt a phaneli a batris ffotofoltäig ym Moncath a soniwyd am y cynlluniau i gael ynni adnewyddadwy yn Hen Ysgol y Ferwig. Cytunwyd i anfon llythyr o gefnogaeth - cynigiwyd gan y Cyng. Lyn Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Peter Williams.

10. Materion Eraill:

- (a) **Baw Cŵn:** Rhoddodd y Clerc wybod ei bod hi wedi holi'r Cyngor ond nad oedd y posteri wedi cyrraedd eto.
- (b) **Hysbysebu Cyngorydd:** Gan fod y Cyng. Delyth Phillips wedi cael ei phenodi'n glerc, ymddiswyddodd fel cyngorydd ac felly nodwyd yr angen am gyngorydd newydd. Cytunwyd i roi adroddiad ym mhapurau'r Tivyside a'r Gambo a rhoi hysbyseb yn yr hysbysfyrddau, y wefan ac ar y dudalen Facebook.
- (c) **Tir y cae pêl-droed:** Yn dilyn Cyfarfod Blyneddol Ystafell Berkley a gynhaliwyd am 7 o'r gloch (cyn y cyfarfod hwn), dywedwyd bod angen cofrestru darnau o dir sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned. Cytunwyd i Annette Morgan siarad gyda'r cyfreithiwr ar ran y Clwb Ffermwyr Ifainc a byddai'r Cyngor yn rhoi trefniadau ar waith ar gyfer ei ochr ef.
- (d) **Bocsys y Cyngor:** Cytunwyd gadael y bocsys am y tro.

11. Adroddiad y Cyngorydd Sir, y Cyng. Clive Davies:

- (a) **Baw Cŵn:** Dywedodd fod posteri baw cŵn wedi dod i Llechryd.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

- (b) **Clwb Sboncen** – Nododd fod y clwb heb dderbyn arian ac felly fe’u cyfeiriwyd at Chwaraeon Actif i weld a allan nhw helpu cyn cyflwyno cais o’r newydd.
- (c) **Safleoedd ymgeisiol** – Mae’n aros i gwrdd â thîm Cynllunio’r Dyfodol ynglŷn â safleoedd ymgeisiol. Nid oes digon o safleoedd wedi dod i’r golwg.
- (d) **Adfywio Economaidd** – bu’n cwrdd gyda swyddogion yr adran Adfywio Economaidd ynghylch y datblygiadau 15 mlynedd ar gyfer economi Ceredigion. Cyflwynodd ei syniadau iddynt. Cafwyd trafodaeth ymhlith y Cynghorwyr am dir ar gyfer tai newydd a’r angen am lai o dai haf yn yr ardal. Soniodd y Cyng. Clive Davies am yr Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol yn Sir Benfro.
- (e) **Ystafell Berkley**: Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Phwyllgor Ystafell Berkley i weld beth sydd angen ar eu neuadd.
- (f) **Lladdwr yr ynn**: Cadarnhaodd mai perchnogion tir sy’n atebol am gwympo coed ar eu tir a bydd y Cyngor Sir yn defnyddio’i bwerau i gwympo coed yn unol ag Adran 154 y Ddeddf Priffyrdd.
- (g) **Rewilding** – Plannu coed yn yr ardal. Bwriedir gofyn am gynllun plannu coed.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf 2 Mawrth – Ffestri Capel Penyparc

Cyfarfodydd y Cyngor am 2020:

6 Ebrill (YB) 4 Mai - CB (F/Festri?) 1 Mehefin (YB)

6 Gorffennaf (F) 7 Medi (YB) 5 Hydref (F) 2 Tachwedd (YB) 7 Rhagfyr (F)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 3 February 2020 at 7.30pm at Penyparc Chapel Vestry.

Present

Cllr. Auriol Williams (*Chair*)

Cllr. Lyn Jones

Cllr. Eurig Lloyd

Cllr. Dilwyn Jenkins

Cllr. Peter Williams

Cllr. Clive Davies (Local member of the County Council)

Cllr. Lloyd Jenkins (*Vice Chair*)

Cllr. Des Davies

Cllr. Llinos Price

Cllr. Delyth Phillips

Cllr. Matthew Morgan

Mrs Melanie Davies (*Clerk*)

- 1. Chairperson's welcome:** The Chair, Cllr. Auriol Williams, welcomed everyone to the February meeting. She congratulated a team of girls from Ysgol Gymunedol Penparc who represented the school at the Urdd relay race competition in Cardiff and succeeded in gaining 2nd place. It was agreed that a card be sent to congratulate them. The Chair stated that she intends on calling at the school soon.
- 2. Apologies for absence:** No apologies.
- 3. Minutes of the previous meeting**
It was proposed by Cllr. Llinos Price and seconded by Cllr. Eurig Lloyd that the minutes of the January meeting be recorded as correct.
- 4. Declaration of personal interests:** Cllr. Delyth Phillips, please see Correspondence, No. 49
- 5. Matters arising:**
 - (a) Ash Dieback:** The Council's position on this issue was discussed. The Council was not aware of any affected tress on Council land. In terms of trees on other land, it was agreed that the proprietors of those lands were accountable for felling.
- 6. Requests for financial support**
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.
Wales Air Ambulance

7. Planning:

	<i>Address and purpose</i>	<i>Council's observations.</i>

8. Financial Matters.

Bills paid:

Clerk's salary (January 2020)	101828	£385.97
Clerk's expenses (January 2020)	101829	£40.80
HMRC: Clerk's Income Tax (October 2019)		Nil
Hen Ysgol y Ferwig Cyf (cost of school hire for 2019)	101830	£120.00
Y Dwrgi (job advertisement)	101831	£5.00
Brwsh	101832	£37.69
Canolfan Ieuenctid Penyparc (insurance)	101833	£348.13

It was proposed by Cllr. Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr. Llinos Price that the above bills be paid.

Other financial matters

Quarterly Financial Report: Councillors reviewed the financial report and it was noted that grass cutting costs for the football field needs to be moved to another category. It was noted that grass cutting costs are generally high

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

as a result of the hot weather during the Summer.

Receipts: None.

9. Correspondence:

47	Ceredigion County Council	Temporary closure of road near Talarwen, Penyparc	Noted
48	Lyn Jenkins	Query on Council procedure regarding footpaths	It was agreed to look into this.
49	Delyth Phillips	Job application for the Clerk's post	Cllr. Delyth Phillips left the meeting as her application was discussed. It was unanimously agreed to appoint her to the role. This was proposed by Cllr. Llinos Price and seconded by Cllr. Lloyd Jenkins
50	Wales Air Ambulance	Request for a financial donation	Noted
51	The Pensions Regulator	Document asking for the Council to re-enrol	Noted – a task for the new Clerk to look into.
52	Play Wales	Newsletter	Noted
53	Pembrokeshire County Council	LDP, Deposit Plan – Consultation 15 th January – 11 th March 2020	Noted
54	Ben Lake MP	Contact details for noticeboards	Noted
55	Brian Mark	Letter asking the Council to support the area's 'Energy Local Clubs'	Cllr. Peter Williams stated that Wales pays 30% more on electricity than England. Different schemes in operation elsewhere were discussed e.g. wind turbine farms and photovoltaic panels and batteries in Boncath and the plans for renewable energy at Hen Ysgol y Ferwig were mentioned. It was agreed that a letter of support be sent which was proposed by Cllr. Lyn Jones and seconded by Cllr. Peter Williams.

10. Other Matters:

- (a) **Dog Mess** – The Clerk informed that she had asked the Council but the posters hadn't yet arrived.
- (b) **Advert for a Councillor** – As Cllr. Delyth Phillips was appointed Clerk, she resigned as Councillor and a need for a new councillor was noted. It was agreed that a report be written to be included in the Tivyside and Gambo and an advert posted on noticeboards, the website and Facebook page.
- (c) **Football ground:** Following Ystafell Berkley's annual meeting at 7pm (prior to this meeting), it was made evident that some patches of land need to be registered as Council property. It was agreed that Annette Morgan would talk to the solicitor on behalf of the YFC and the Council would put arrangements in place.
- (d) **Council Boxes:** It was agreed that the boxes would be left for the time being.

11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies:

- (a) **Dog Mess** – He mentioned that Llechryd had received their dog mess prevention posters.
- (b) **Squash Club** – He noted that the club has not received money but he has referred them to Sport Actif to see if they can help them make a new application.
- (c) **Candidate Sites** – He's waiting to meet the Future Planning Team regarding this matter. Insufficient sites have come to the fore.
- (d) **Economic Regeneration** – he met with the Economic Regeneration department's officers regarding the 15 year developments for Ceredigion's economy. He presented his ideas to them. A discussion

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

ensued amongst councillors about land for new houses and the need for fewer holiday homes in the area. Cllr. Clive Davies mentioned Pembrokeshire's Community Land Trust.

- (e) **Ystafell Berkley** – A meeting will be held with Ystafell Berkley Committee to see what's needed at the hall.
- (f) **Die Ashback** – He confirmed that landowners are accountable for felling trees on their land and the County Council will use its powers to fell trees according to Section 154 of the Highways Act.
- (g) **Rewilding** – Tree planting in the area. He intends to ask regarding a tree planting scheme.

12. Date of next meeting: 2 March – Penyparc Chapel Vestry

Dates of Council Meetings for 2020:

6 April (YB) 4 May - AGM (F/Vestry?) 1 June (YB)
6 July (F) 7 September (YB) 5 October (F) 2 November (YB) 7 December (F)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting